



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Gogledd Cymru

12 Ebrill 2019

9:00 yb to 1:00 yp

Swyddfa CBSC, Coed Pella, Bae Colwyn

Yn bresennol:	Teresa Owen (cadeirydd), Fôn Roberts (yn bresennol ar ran Alwyn Jones), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Bethan Jones, Charlotte Walton, Chris Stockport, Clare Budden, Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Christine Jones, Cyng. Joan Lowe (JLo), Cyng. Liz Roberts, Cyng. Dafydd Meurig, Ffion Johnstone, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, Kevin Roberts, Marian Wyn Jones, Mary Wimbury (MWim), Craig MacLeod (yn bresennol ar ran Neill Ayling), Siobhan Edwards (yn bresennol ar ran Neill Anderson), Nicola Stubbins, Peter Williams, Rob Smith, Roma Hooper, Wendy Jones, Lynda Colwell.
Ymddiheuriadau:	Judith Greenhalgh, Cyng. Llinos Medi Huws, Estelle Hitcheon, Neil Ayling, Neill Anderson, Alwyn Jones, Mark Wilkinson, Shan Lloyd Williams, David Worrall.
Hefyd yn bresennol:	Ann Woods, Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint Jane Green, Rheolwr Ymgysylltu, Confederasiwn GIG Cymru

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Gwnaed cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod. Rhoddwyd croeso cynnes i aelodau newydd y Bwrdd, y Cyng. Dafydd Meurig a Roma Hooper fel dirprwy ar ran Dave Worrall.

2 Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth fel gwir gofnod o'r cyfarfod.

Camau gweithredu mis Chwefror sydd eto i'w cwblhau:

- Partneriaid i nodi pan fydd eu Strategaeth AD wedi bod drwy eu prosesau gwleidyddol

- Pob partner i anfon manylion eu cefnogwr Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig.

Camau gweithred a gwblhawyd;

- Ymateb Jason Lintern:

“Mae'r cyllid am 2 flynedd, er ein bod yn cadw'r hawl i'w ymestyn am 3 blynedd yn amodol ar y cafeatau arferol, sef gwerthuso, cynnydd, effaith ac argaeledd parhaus cyllid.... felly, cynlluniwch am 2 flynedd ac arddangos y meddwl / cynaliadwyedd wedi'r amserlen honno”.

- Gwnaed unrhyw newidiadau y tu hwnt i'r cynnig Ymchwilio Arloesi a Gwella, ac mae'r ddogfen derfynol wedi ei chynnwys ym mhecyn cyfarfod heddiw er gwybodaeth, a fydd yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhaodd CS ac NS fod y cynigion Trawsnewid y Gwasanaethau Cymunedol a Thrawsnewid Plant wedi selio eu cylch gorchwyl ar Gylch Gorchwyl 'Gyda'n Gilydd dros Iechyd Meddwl', gyda mân newidiadau.
- Mae pob Cronfa Drawsnewid wedi ystyried strwythur adrodd generig ar gyfer pob ffrwd waith.
- Bydd 'Mwy Na Geiriau' yn cael ei gynnwys ar raglen y Grŵp Arweinyddiaeth ym mis Mai.
- Dylid cyflwyno'r cynigion ynglŷn â'r Panel Dinasyddion i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (y Bwrdd) ym mis Mehefin.
- Bydd tâl i gynrychiolwyr gofalwyr a defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu trafod ar raglen y Bwrdd ym mis Mehefin.

Camau gweithredu sydd eto i'w cwblhau:

- MWJ i anfon copi o'r strategaeth T4MH i JLe.

Dywedodd BJE y bydd yr adroddiad blynyddol drafft yn cael ei gyflwyno i'r Fwrdd ym mis Mehefin.

3 Item 3

Rhoddodd BJE gefndir gofynion y Ffurflen Gwerth Cymdeithasol o fewn yr SSWBA. Rhoddodd Ann Woods (AW) Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint a chadeirydd grŵp llywio'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol y wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ar adroddiad cynnydd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol, sy'n mapio'r holl waith sy'n mynd yn ei flaen ar draws y rhanbarth.

Mae gofyniad gan Lywodraeth Cymru dan adran 16 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (SSWB) i awdurdod lleol a byrddau iechyd sy'n bartneriaid i sefydlu fforymau rhanbarthol i gefnogi darparwyr ar sail gwerth cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r rhaglen gyffredin, ac i rannu a datblygu arferion da wrth gomisiynu.

Diolchodd TO i AW am yr adroddiad manwl hwn a'r gwaith parhaus ar draws y rhanbarth o fewn Fforymau Gwerth Cymdeithasol.

Rhoddodd JW longyfarchiadau hefyd am y ddogfen ddefnyddiol hon, ond nododd fod nifer y sefydliadau gwerth cymdeithasol (y gwyddom amdanynt) yn ardal (gyffredinol) Conwy yn anghywir, a bydd yn darparu ffigyrau wedi'u diweddarau unwaith y byddant yn cael eu hadolygu.

Adroddodd LC ar gyfarfod diweddar gyda Sally Rees yn trafod y wybodaeth arfer orau ar draws Cymru, a chyfarfod gyda Shelley Davies, LIC ynglŷn â phwysigrwydd gwerth cymdeithasol, ac awgrymodd y dylid cynnwys y wybodaeth hon yn yr adroddiad.

Nododd MWim fod Gwerth Cymdeithasol yn rhan o strategaeth economaidd gymdeithasol LIC yn edrych ar Fusnesau Bach a Chanolig, a phwysigrwydd cael trafodaethau sy'n cynnwys pawb.

Holodd CB pa heriau oedd yn wynebu gwerth cymdeithasol a holodd sut y gallai'r Bwrdd gynorthwyo i sicrhau cynnydd.

Cadarnhaodd AW fod partneriaid yr awdurdod lleol wedi ymrwymo, gydag uwch staff comisiynu yn mynd i gyfarfodydd. Serch hynny, mae llai o ymrwymiad gan PBC, ac mae angen mynd i'r afael a hyn.

Cytunodd TO i gymryd y camau hyn gyda PBC.

Nododd ME hefyd fod gwerth cymdeithasol wedi ei drafod yng nghyfarfod diweddar y Grŵp Arweinyddiaeth a phwysigrwydd cynnal cysylltiadau cryf gyda'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, a bod compactau o fewn y Trydydd Sector mor bwysig ar gyfer trafodaethau lleol. Cytunodd y Bwrdd i ardystio Adroddiad Cynnydd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol, ac i anfon yr adroddiad at LIC.

Camau Gweithredu

- JW i hysbysu AW/MB am ffigyrau diweddaraf CBSC
- LD i anfon y wybodaeth ddiweddaraf at AM/MB
- TO i weithredu cynrychiolydd PBC

4 Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Blant

Cafodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan Bethan Jones, Cyfarwyddwr Rhanbarth Ganolog PBC ar Flaenoriaethau'r Bartneriaeth Blant.

Lluniwyd yr adroddiadau i atgoffa'r Bwrdd, gan fod nifer o aelodau newydd, beth oedd y rheswm dros ddewis y blaenoriaethau, nodi'r heriau a wynebir ac i aelodau'r RPB ystyried sut y gallent gefnogi'r ffrwd waith.

Nodwyd y chwe blaenoriaeth drwy ddau weithdy a gynhaliwyd yn 2017 ac mae'r gwaith a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi galluogi partneriaid i ddeall digwyddiadau anffafriol ac effaith hyn ar iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol.

Dywedodd BJ fod cynnydd cyffredinol yn nifer y Plant gydag anghenion cymhleth, gydag ystod amrywiol o alw a gofynion. Mae CBSC a PBC yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a chyflwyno gwell fformwleiddiad i gynnig gwasanaeth cefnogi i blant dan fygythiad neu pan fo lleoliad yn methu neu'n Derbyn Gofal, a ariennir gan ICF.

Nododd cynllun peilot Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACE) gan ymwelwyr iechyd PBC ar Ynys Môn ganfyddiadau addawol drwy ddarparu cyfleoedd i drafod ac adlewyrchu ar yr hyn a effeithiodd ar brofiadau'r fam ei hun o blentynod, a oedd yn gam cyntaf tuag at ddeall sut i gefnogi mamau sydd â phrofiad o ACE i gyflawni iechyd a lles eu hunain a gwell canlyniadau fel rhieni.

Eglurodd BJ hefyd fod y Grŵp Trawsnewid Plant (ChTG) wedi ei ailsefydlu i gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol partner, tai ac addysg. Teitl y grŵp bellach yw Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Blant (ChPP).

Croesawodd TO yr adroddiad a phwysigrwydd sicrhau y neilltuir amser i fynd i'r afael â'r materion yn fewnol.

Anogodd CB ymgysylltu effeithiol gyda sefydliadau tai cymdeithasol i gynorthwyo i reoli materion cymdeithasol - ymddygiad gwrthgymdeithasol, torri tenantiaeth, iechyd meddwl.

Dywedodd JW hefyd fod tai yn faes allweddol o'r cynnig trawsnewid, gan y bydd y rhan fwyaf o ymgysylltu yn digwydd yn lleol.

Mae Cyfarwyddwyr yr Awdurdod Lleol yn croesawu'r gwahoddiad i'r gwahoddiad ChPP, ond mynegwyd pryder am y cynnydd a welwyd yn y rhestr aros Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifan (CAMHS) a holodd sut y gallai'r rhanbarth fynd i'r afael â'r mater hwn gyda'i gilydd.

Dywedodd MWJ fod y ffigwr hwn yn anghywir ac yn cael effaith ar sut i ymdrin â'r plant hynny sydd wir angen y gwasanaeth. Mae trefniadau ar waith i ddatblygu adnoddau i'w defnyddio mewn ysgolion a fydd yn ceisio lleihau nifer yr atgyfeiriadau Bydd cydweithwyr PBC hefyd yn ceisio cysylltu â'r darnau o waith cenedlaethol ar ddatblygu adnoddau mewn rhannau eraill o Gymru fel y gall adnoddau fod ar gael yn gynharach.

Dyweddod RH wrth bartneriaid hefyd fod y trydydd sector yn cymryd rhan ymarferol yn lles pobl ifanc, gan weithio gyda phobl ifanc mewn addysg, a staff addysg ar sut i fynd i nodi problemau.

Camau Gweithredu

- Roedd y Bwrdd yn cytuno i ardystio argymhellion Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Blant:
 1. Nodi'r cynnydd ar Agenda'r Plant ac adolygu'r heriau a amlygwyd gyda'r bwriad o nodi beth allant, fel aelodau'r RPB ei wneud i gefnogi.
 2. Ardystio penderfyniad y Grŵp Arweinyddiaeth i adnewyddu swydd y Grŵp Trawsnewid plant
 3. Cytuno i ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau Rhanbarthol a rannir ar gyfer Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas ag Iechyd a Lles a fframwaith perfformiad cysylltiedig.

5 Y wybodaeth ddiweddaraf ar Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru (y Bwrdd Gweithlu

Cafodd y bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Charlotte Walton, cadeirydd y Bwrdd Gweithlu, ar raglen waith y Bwrdd Gweithlu ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd Gweithlu yn arwain ar ran y Bwrdd hwn ar unrhyw faterion strategol yn ymwneud â chynllunio gweithlu, trawsnewid a chynaliadwyedd a sydd â chysylltiad clir â'r pedair Rhaglen Drawsnewid.

Fel Bwrdd integredig, bydd y Bwrdd Gweithlu yn symud ymlaen i gynllunio a datblygu ar y cyd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, cyflawni'r Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Rhanbarthol, gan gysylltu â Byrddau strategol eraill fel y bo'n briodol.

Mae'r gweithgarwch dros y 12 mis diwethaf yn cynnwys cysylltu â strategaeth a blaenoriaethau cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW); ymgysylltu ag is-grwpiau Strategaeth Gofal a Chymorth yn y Cartref SCW; cryfhau cyfranogiad y Bwrdd ar y Bwrdd Sgiliau Rhanbarthol; adolygu aelodaeth y Bwrdd i gynnwys darparwyr Addysg a chefnogi'r broses gofrestru.

Mae'r gwaith a gynlluniwyd yn cynnwys adolygu eu rhaglen waith bresennol i ail-ganolbwyntio ar y gofynion i'w darparu drwy'r pedwar Cynnig Trawsnewid a gymeradwywyd, gan weithio gyda noddwr arweiniol pob prosiect i gytuno pa elfennau o'u rhaglen y bydd y Bwrdd Gweithlu'n bwrw ymlaen â nhw. Unwaith y bydd wedi ei gwblhau, bydd y Bwrdd Gweithlu'n cynhyrchu cofrestr risg strategol a chynlluniau lliniaru, mewn partneriaeth â'r Byrddau Trawsnewid.

Mynegodd MWim nifer o bryderon:

- cofrestru'r gweithlu ac anawsterau cyfranogiad, beth fydd y materion yn sgil y cymwysterau sy'n dal i gael eu datblygu; anawsterau recriwtio a chynnal staff

yn sgil cofrestru staff gofal cartref a'r pryderon ynglŷn â sut y bydd hyn yn cael ei ddatblygu; pwysau ar y gweithlu a bod yn ymwybodol o bryderon y darparwyr;

- Asesu'r gwahaniaethau mewn taliadau a thelerau ac amodau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Cynaliadwyedd y sector nyrsio yn sgil y diffyg gosod ffioedd gan PBC.

Nododd ME yr angen i gynnwys polisi 'Mwy na Geiriau' ar y Gymraeg, ac efallai cymryd y cyfle i rannu ac alinio'r gwaith hwn, mewn partneriaeth â PBC.

Camau Gweithredu

- Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Bwrdd Gweithlu.

6 Gweithdy Beth sy'n Bwysig

Bu Jane Green, Rheolwr Ymgysylltu Conffederasiwn GIG Cymru yn bresennol mewn cyfarfod er mwyn cynnal gweithdy 'Beth sy'n Bwysig' gydag aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn adolygu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Bwrdd sy'n dilyn ymlaen o'r gweithdai blaenorol a gynhaliwyd.